

Mae'r Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau (Prifysgol Bangor), gyda chefnogaeth Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru ESRC (DTP Cymru), ac mewn cydweithrediad â Datblygiadau Egni Gwledig (DEG), yn gwahodd ceisiadau ar gyfer astudiaeth ddoethurol wedi ei hariannu o fewn y Llwybr Dwyieithrwydd, i gychwyn mis Hydref 2023, ar y pwnc:

Rôl y Gymraeg mewn mentrau gweithredu cymunedol

Beth yw effeithiau trin iaith frodorol yn eilradd mewn gwlad ddwyieithog fel Cymru? Mae sgiliau ac agweddau iaith yn effeithio ar allu pobl i ffynnu mewn cymdeithas. Gall, er enghraifft, effeithio ar y graddau y mae siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn fodlon ymwneud â thrafodaethau drwy gyfrwng y Saesneg. Gall dwyieithrwydd yng Nghymru achosi gwrthdaro, gan gynnwys profiad cryf o wrthwynebiad rhwng pobl o fewn neu du allan i grŵp, a siaradwyr Cymraeg yn cwestiynu y defnydd di-ofyn o Saesneg mewn rhai cyd-destunau.

Mewn cydestunau cyfathrebu cyhoeddus fel cynullïadau cymunedol DEG, mae agweddau, cefndiroedd iaith a sgiliau amrywiol yn dod ynghyd, gyda chyfranogwyr yn amrywio o fod yn siaradwyr Cymraeg 'brodorol' i siaradwyr 'newydd' i siaradwyr uniaith Saesneg. O brofiad, mae'r defnydd o'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y broses o wneud penderfyniadau sy'n arwain tuag at weithgareddau cydgysylltiedig, cadarnhaol: byddai llawer o drigolion lleol yn gwrthod cymryd rhan mewn gweithred a gynigiwyd ac a drafodwyd yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg, er bod ganddynt ddealltwriaeth glir ohoni. Mae'n bosib na fyddant yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys na'u hannog i ymrwymo.

Bydd cwestiwn ymchwil penodol y prosiect hwn "Beth yw effeithiau trin y Gymraeg yn eilradd yn ystod prosesau gwneud penderfyniadau mewn grwpiau cymunedol dwyieithog sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn bennaf?" yn cael ei astudio trwy fethodolegau ieithyddol (cymdeithasol) safonol (arolygon, cyfweiliadau, arsylwi, dadansoddi disgwrs). Bydd Dadansoddiad Disgwrs Gwybyddol (Tenbrink, 2020) yn cael ei ddefnyddio i ddeall â cysyniadau a phatrymau meddwl siaradwyr y tu hwnt i'r rhai sy'n cael eu mynegi'n benodol gan yr hyn y mae pobl yn ei ddweud, gan edrych ar y ffordd y caiff ei ddweud. Bydd y mewnwelediadau hyn yn cael eu defnyddio i lunio ar y cyd ganllawiau ac argymhellion ar gyfer gweithredu cymunedol mewn cyd-destunau dwyieithog.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr eithriadol sydd â gradd anrhydedd dosbarth cyntaf neu ail uchel, neu radd Meistr briodol. Yn ogystal, mae'r prosiect hwn yn gofyn am sgiliau iaith Gymraeg; dylai ymgeiswyr fod naill ai eisoes yn rhugl yn y Gymraeg neu ddangos ymrwymiad cryf i ddysgu i lefel uchel o fewn eu blwyddyn gyntaf o astudiaeth PhD.

Mae'r Brifysgol a DTP ESRC Cymru yn gwerthfawrogi amrywiaeth a chydarddoldeb ar bob lefel ac yn annog ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned, ni waeth beth fo'u hoedran, anabled, rhyw, hunaniaeth ryweddol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol. Yn unol â'n

hymrwymiad i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a chynyddu recriwtio gan grwpiau a dangynrychiolir, mae croeso ac anogaeth benodol i geisiadau gan ymgeiswyr Du Prydeinig, Asiaidd Prydeinig, ethnigrwydd lleiafrifol Prydeinig a hil gymysg Prydain. Rydym yn croesawu ceisiadau i astudio'n amser llawn neu'n rhan amser, ac mae ysgoloriaethau ar gael fel naill ai '1+3' (h.y. un flwyddyn gyfan o radd Meistr hyfforddiant ymchwil ac yna astudiaeth ddoethurol amser llawn neu gymhwyster cyfatebol rhan amser) neu '+3' (h.y. tair blynedd o astudiaeth ddoethurol amser llawn neu gymhwyster cyfatebol rhan amser) yn dibynnu ar anghenion yr ymgeisydd.

Bydd y myfyriwr yn cael ei gyd-oruchwylio gan Dr Thora Tenbrink (Athro mewn leithyddiaeth, Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau) a Dr Lowri Angharad Hughes (Pennaeth Polisi a Datblygu, Canolfan Bedwyr), mewn cydweithrediad agos â chynrychiolwyr allweddol DEG.

Croesewir ceisiadau erbyn 3 Chwefror 2023 (hanner dydd).

Gydag ysgoloriaethau cydweithredol o'r fath hon, dylai ymgeiswyr ystyried yn ofalus deitl a disgrifiad cyfredol y prosiect, ac mae croeso iddynt gysylltu â'r Athro Thora Tenbrink t.tenbrink@bangor.ac.uk i gael sgwrs cyn gwneud cais.

YR HYN Y BYDD YR YSGOLORIAETH YN EI GWMPASU

Bydd Dyfarniadau Ysgoloriaeth yn dechrau ym mis Hydref 2023 ac yn talu am eich ffioedd dysgu yn ogystal â chynnig grant cynhaliaeth (ar hyn o bryd £17,668 y flwyddyn ar gyfer myfyrwyr llawn amser 2022/23, a bydd y swm hwn yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn); ac yn cynnwys mynediad at Grant Cymorth Hyfforddiant Ymchwil (RTSG) ychwanegol, er y gallai elfen o'r gronfa hon gael ei 'chronni' fel bod angen ceisiadau ar wahân o 2023 ymlaen. Mae cyfleoedd a manteision eraill ar gael i ddeiliaid ysgoloriaeth, gan gynnwys lwfans gwaith maes tramor (os yw'n berthnasol), cyfleoedd am interniaeth, ymweliadau â sefydliadau tramor a grantiau bychain eraill.

PWY SY'N GYMWYS

Mae ysgoloriaethau ESRC yn gystadleuol iawn, a dylai ymgeiswyr feddu ar gefndir academiaidd rhagorol yn y gwyddorau cymdeithasol, gyda gradd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uchel; ystyrir ymgeiswyr sy'n meddu ar radd Meistr mewn hyfforddiant ymchwil (neu gefndir cyfatebol ym maes hyfforddiant ymchwil) ar gyfer dyfarniad +3. Mae ysgoloriaethau DTP Cymru ar gael i fyfyrwyr cartref a rhyngwladol (gan gynnwys yr UE a'r AEE). Bydd pob ymgeisydd yn gymwys i gael dyfarniad llawn sy'n cynnwys cyflog cynnal a chadw a thalu ffioedd dysgu ar gyfradd sefydliad ymchwil y DU. Rhaid i ymgeiswyr fodloni gofynion cymhwysedd yr ysgoloriaeth. I gael rhagor o fanylion ewch i [wefan UKRI](#). Bydd ymgeiswyr llwyddiannus sy'n fyfyrwyr rhyngwladol yn derbyn efrydiaeth DTP Cymru a

ariennir yn llawn ac ni chodir y gwahaniaeth ffioedd arnynt rhwng cyfradd y DU a chyfradd ryngwladol.

1+3 NEU +3?

Ac eithrio ysgoloriaethau ar y llwybr Economeg, mae dyfarniadau ar gael ar sail 1+3 neu +3. Mae ysgoloriaeth 1+3 yn cynnig cyllid am bedair blynedd (neu sy'n cyfateb i hynny'n rhan amser), gan gwblhau Gradd Meistr hyfforddiant ymchwil yn y flwyddyn gyntaf, ac yna 3 blynedd o gyllid ymchwil ar gyfer PhD. Mae ysgoloriaeth +3 yn darparu cyllid ar gyfer tair blynedd yr astudiaethau ymchwil PhD yn unig (neu gyfnod sy'n cyfateb i hynny'n rhan amser).

ASESU

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau fydd 12.00 hanner dydd, ddydd Gwener 3 Chwefror 2023. Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael gwahoddiad i gyfweiliad, a disgwylir cynnal y cyfweiliadau ddiwedd Chwefror/dechrau Mawrth 2023. Ar ôl y cyfweiliad, caiff rhestr fer derfynol o ymgeiswyr ei chyflwyno i Banel a gynullir gan Grŵp Rheoli DTP ESRC Cymru i wneud penderfyniad terfynol ynghylch pwy y dylid dyfarnu ysgoloriaethau iddynt. Yn y rhan fwyaf o achosion gall ymgeiswyr llwyddiannus ddisgwyl ymateb erbyn dechrau mis Ebrill 2023.

SUT MAE CYFLWYNO CAIS

Cyflynwch ffurflen gais **wedi'i llenwi** ar gyfer eich derbyn i astudiaethau doethurol ym Mhrifysgol Bangor i <https://www.bangor.ac.uk/cy/study/postgraduate-research/apply> erbyn y dyddiad cau, sef 12 ganol dydd ar 3 Chwefror 2023. Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau anghyflawn na rhai a ddaw i law ar ôl yr amser a bennwyd.

Rhaid i'r cais gynnwys y dogfennau canlynol:

1. Llythyr eglurhaol: Dylid ei gyfeirio at yr Athro Thora Tenbrink. Rhaid i'r llythyr eglurhaol enwi'r ysgoloriaeth gydweithredol y gwneir cais amdani. Rhaid iddo nodi eich rhesymau a'ch ysgogiad dros wneud cais i astudio ym Mhrifysgol Bangor, ac ar y Llwybr Dwyieithrwydd; eich dealltwriaeth a'ch disgwyliadau o ran astudiaethau doethurol; a'ch diddordebau academaidd yn gyffredinol, ac yn **benodol sut maent yn berthnasol i'r disgrifiad o'r prosiect a roddwyd**. Ni ddylai'r llythyr eglurhaol fod yn hwy na dwy dudalen. Nodwch hefyd a ydych yn gwneud cais ar sail +3 neu 1+3.
2. Cymwysterau Academaidd/Proffesiynol: Lle bo hynny'n briodol, dylai hyn gynnwys tystiolaeth o Gymhwysedd Iaith Saesneg yn ogystal (gweler gofynion mynediad sefydliadol; lleiafswm IELTS 7.0).

3. Geirdaon: Rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno dau eirida academiaidd i gefnogi'r cais. Rhaid i ymgeiswyr fynd at ganolwyr eu hunain a chynnwys y geirdaon ynghyd â'u cais.

4. Curriculum Vitae: Ni ddylai fod yn hwy na dwy dudalen.

5. Cynnig Ymchwil: Ar gyfer ysgoloriaethau cydweithredol, dylai'r cynnig ymhelaethu'n uniongyrchol ar y disgrifiad amlinellol a ddarparwyd. Ni ddylai'r cynnig fod yn hwy na *chyfanswm* o 1000 o eiriau, heb gynnwys cyfeiriadau llyfryddiaeth. Awgrymwn eich bod yn defnyddio'r pum pennawd canlynol yn eich cynnig ymchwil:

- Eich meddyliau ynghylch teitl, nodau a diben yr ymchwil;
- Trosolwg o rywfaint o'r llenyddiaeth ymchwil allweddol sy'n berthnasol i'r astudiaeth;
- Eich cynigion ar gyfer datblygu dyluniad a dulliau'r astudiaeth;
- Disgrifiad o ganlyniadau posibl y prosiect o ran dealltwriaeth, gwybodaeth, polisi ac ymarfer (fel sy'n briodol i'r pwnc);
- Cyfeiriadau llyfryddiaeth

6. Ffurflen [Cyfle Cyfartal](#) wedi'i chwblhau.

7. Yn y system ymgeisio ar-lein, o dan y tab **Rhaglenni**, dewiswch 'Ysgoloriaethau Hysbysebu Prifysgol Bangor ...'

Ymchwil ol-radd

(PhD, EDD, MPhil, Masters by Research)

Project Ymchwil eich hun...

Ysgoloriaethau â Hysbysebwyd gan Prifysgol Bangor...

Yna dewiswch '**Ysgoloriaeth ddoethurol mewn Dwyieithrwydd: Rôl y Gymraeg mewn mentrau gweithredu cymunedol**', gan sicrhau eich bod yn ychwanegu'r Athro Thora Tenbrink i'r blwch 'Cyswllt Academiaidd'. Cliciwch Ychwanegu.